CHWEFROR 2025

# MIN Y TRAETH

BWLETIN YSGOL EIFIONYDD




## GAIR GAN Y PENNAETH

**Annwyl Rieni/Gwarcheidwaid,**

"Ymlaen" yw arwyddair ein hysgol, ac eleni rydym wir wedi symud ymlaen mewn sawl ffordd. Mae'n bleser gallu rhannu bod yr ysgol yn falch o'n cwricwlwm a'r profiadau cyfoethog y mae ein disgyblion wedi'u mwynhau hyd yma. Dyma gipolwg ar yr hyn sydd wedi digwydd ers Medi 2024 – gyda llawer mwy i ddod!

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i chi am eich cefnogaeth barhaus wrth sicrhau bod ein disgyblion yn tyfu ac yn ffynnu, yn academaidd ac yn bersonol. Mae eich partneriaeth yn allweddol wrth greu amgylchedd dysgu cadarnhaol a llawn cyfleoedd.



**Pwysigrwydd Mynychu'r Ysgol**
Sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd yw un o'r pethau pwysicaf y gallwch ei wneud er mwyn eu dyfodol. Mae'r ysgol yn darparu addysg, sgiliau cymdeithasol hanfodol, disgyblaeth, a'r sylfaen ar gyfer llwyddiant gydol oes. Gall colli hyd yn oed ychydig ddyddiau gael effaith sylweddol ar eu cynnydd academaidd a datblygiad cyffredinol.

**Pam Mae Mynd i'r Ysgol yn Bwysig?**
✓ **Llwyddiant Academaidd** – Mynychu gwersi a chwblhau gwaith cwrs yn effeithiol.
✓ **Datblygiad Cymdeithasol** – Dysgu rhyngweithio â chyfoedion a datblygu sgiliau cyfathrebu.
✓ **Cyfleoedd yn y Dyfodol** – Mae presenoldeb uchel yn dangos ymrwymiad a dibynadwyedd.
✓ **Hyder a Lles** – Creu hunanddisgyblaeth, hyder a phatrwm dyddiol sy'n cyfrannu at les cyffredinol.

**Sut Gallwch Chi Helpu?**
✅ Sefydlu Trefn – Sicrhewch fod amser gwely a deffro cyson gan eich plentyn.
✅ Annog Agwedd Bositif – Trafodwch bwysigrwydd addysg a dathlwch eu llwyddiannau.
✅ Cyfathrebu â'r Ysgol – Cysylltwch os oes gan eich plentyn unrhyw anawsterau.
✅ Osgoi Absenoldebau Diangen – Trefnwch apwyntiadau y tu allan i oriau ysgol pryd bynnag y bo modd.

Mae eich cefnogaeth yn allweddol i sicrhau dyfodol llwyddiannus i'n disgyblion. Gadewch i ni weithio gyda'n gilydd i roi'r dechrau gorau posib iddynt mewn bywyd! Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth barhaus.

**Aelodau Etholedig Cyngor Ysgol Eifionydd 2024-2025**
Mae Cyngor Ysgol Eifionydd yn rhoi llais i'n disgyblion, gan eu galluogi i gyfrannu at fywyd yr ysgol a dylanwadu ar benderfyniadau pwysig. Trwy gydweithio â staff a disgyblion, mae'r cyngor yn cynrychioli barn y gymuned ysgol ac yn gweithio ar brosiectau i wella profiadau addysgol a chymdeithasol i bawb. Llongyfarchiadau i'r aelodau etholedig ar eu rolau newydd – rydym yn edrych ymlaen at weld eich syniadau a'ch arweinyddiaeth yn dod i'r amlwg dros y flwyddyn i ddod!

**'Da ni yma o hyd!**
Er mwyn annog disgyblion i fynychu'r ysgol yn rheolaidd, rydym wedi sefydlu nifer o gynlluniau cyffrous:
🎉 Raffl iPad – Bydd disgyblion gyda 95% presenoldeb neu uwch yn cael eu cynnwys mewn raffl i ennill iPad!
🏆 Cystadleuaeth Dosbarth Cofrestru – Bob mis, bydd dosbarthiadau cofrestru yn cystadlu am y presenoldeb uchaf. Bydd y dosbarth buddugol yn derbyn bocs o siocledi!
🍽️ Blaenoriaeth yn y Ciw Cinio – Bydd disgyblion sy'n cyflawni 100% presenoldeb dros fis yn cael blaenoriaeth gyda ffrind yn y ciw cinio am ddiwrnod fel gwobr arbennig.



**Ffredi Couture a Joanna Renju, disgyblion o ddosbarth cofrestru Blwyddyn 7 Miss Alaw Roberts, yn cael y fraint o dderbyn bocs o siocledi i'w rannu gyda'u cyd-ddisgyblion. Tybed pwy fydd yn ennill y mis yma?**



**Raffl Talebau: Ella Ratcliffe a Lennon Cunningham yn derbyn taleb £15 am bresenoldeb o 95% neu uwch ers Medi 2024. Da iawn chi!**

**Annog Ymddygiad Cadarnhaol a Chyfeillgarwch**
Mae bod yn gyfeillgar ac yn ymddwyn yn dda yn helpu i wneud bywyd ysgol yn haws ac yn fwy hwylus, gan hefyd baratoi plant ar gyfer y dyfodol. Gadewch i ni weithio gyda'n gilydd i feithrin plant caredig a chymwynasgar.

Fel ysgol, rydym yn monitro ymddygiad yn rheolaidd trwy ClassCharts ac adroddiadau tymor.
Rydym hefyd yn gwobrwyo disgyblion sy'n dangos ymddygiad da trwy gydol y flwyddyn.

Gyda'n gilydd, gallwn atgyfnerthu gwerthoedd parch a charedigrwydd, gan annog ein plant i drin eraill yn dda a meithrin cyfeillgarwch cryf. Rydym hefyd yn pwysleisio'r angen i fod yn amyneddgar, yn gwrtais ac yn ystyriol bob amser.

**Sesiynau Cymreictod**
Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn Sesiynau Cymreictod wythnosol yn ystod cyfnodau tiwtorial, nod y sesiynau yw codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, Cymru a'n diwylliant. Mae'r Sesiynau yn cael eu uwch lwytho yn wythnosol ar Google Classroom **"Sesiynau Cymreictod"** gyda'r nod o barhau gyda'r drafodaeth a'r gweithgareddau adref.

**Cyngor Cymreictod**
- **Dathlu Dydd Shwmae Sut'Mai** – hyrwyddo dwyieithrwydd.
- **Sesiynau Dawnsio Gwerin** gan yr Adran Addysg Gorfforol.
- **Dathliadau Adfent y Nadolig** – creu bôbl Cymraeg Nadoligaidd.
- **Dathliadau Dydd Santes Dwynwen** a **Dydd Miwsig Cymru**.
- Blwyddyn 7 yn cymryd rhan mewn **gweithdy drama** gyda **Rhodri Trefor** fel rhan o broject Grant y Gymraeg.



**Bu Gai Toms yn perfformio i ddisgyblion Blwyddyn 8, gan ddod â naws fywiog a cherddoriaeth fyw i'r dathliadau!**

**Clwb Darllen Eifionydd**
Mae'r **Clwb Darllen** yn cyfarfod ddydd Llun cyntaf pob mis – cyfle i ddarllen, trafod ac ysgrifennu adolygiadau byr.

**Swogs Bwyd a Maeth**
- **Dathliadau Adfent y Nadolig** – cyfle i ddisgyblion leisio barn am y Cinio Nadolig.
- **Dydd Santes Dwynwen** – gweithgareddau i ddathlu'r diwrnod arbennig hwn.
- **Diwrnod Crempog** – creu fideo cam wrth gam ar sut i wneud crempogau.
- **Sesiynau tiwtorial** – trafodaethau ar bynciau cyfoes, megis yr oedran prynu diodydd pop.
- **Dydd Gŵyl Dewi** – helpu i baratoi ac addurno ar gyfer y dathliadau.



**Bu aelodau'r Cyngor Cymreictod yn cyflwyno gwobrau i enillwyr y gystadleuaeth dylunio Bôbl Nadolig, gan gydnabod eu gwaith creadigol a chyfraniad at yr ysbryd Nadoligaidd!**

**Cyngor Creadigol**
- **Cyngerdd Nadolig** – creu poster a rhaglen ar gyfer y cyngerdd.
- **Dydd Miwsig Cymru** – fideo, cyflwyniad, gwasanaeth arbennig, sesiwn ukuleles gyda Gai Toms a disgo tawel gan yr Urdd.
- **Cân i Gymru** – dathliadau a gwasanaeth arbennig.
- **Project Grant y Gymraeg** – gweithdy drama gyda Rhodri Trefor i rai disgyblion Blwyddyn 7.
- **Pam Cerddoriaeth?** – dathliadau arbennig gan Wasanaeth Cerdd Cenedlaethol.

**Clwb Crefft er Lles Eifionydd**
Mae'r clwb yn cyfarfod bob dydd Iau, gan gynnig cyfle i ddisgyblion fynegi eu hunain, ymlacio a datblygu eu sgiliau creadigol mewn awyrgylch hamddenol a chefnogol.

**Ffarwelio a Chroesawu Staff**
Rydym yn falch o groesawu Miss Mirain Rhys, ein hathrawes Bioleg newydd i'r Adran Wyddoniaeth. Ar yr un pryd, dymunwn bob lwc i Mrs Sera Williams yn ei swydd newydd gyda'r Cyngor. Mae hefyd rai newidiadau yn ein tîm bugeiliol hefyd – Mr Ian Roberts yw Pennaeth Blwyddyn 11, tra bod Mrs Miriam Amlyn bellach yn arwain Blwyddyn 8 ac yn parhau yn ei rôl fel Pennaeth Blwyddyn 7.



**Tîm Rygbi Dan 13 – Llwyddiant ysgubol yn Cwpan Eryri!**
Mae Tîm Rygbi Dan 13 Ysgol Eifionydd wedi dangos perfformiad arbennig yn ddiweddar, gan sicrhau buddugoliaeth glir o 46-19 yn erbyn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch yn rownd yr wyth olaf Cwpan Eryri ar Ddydd Llun, 10/2/25. Cyn hyn, roedd y tîm eisoes wedi profi eu cryfder drwy ennill Twrnamaent Eryri Arfon Dwyfor, gan sicrhau record berffaith o bum buddugoliaeth o bum gêm. Yn ystod y twrnamaent, roedd eu hamddiffyniad yn gadarn iawn, gan ildio dim ond un cais drwyddi draw. Llongyfarchiadau mawr i'r tîm am eu gwaith caled, penderfyniad a chwarae tîm eithriadol – edrychwn ymlaen at weld beth sydd i ddod yn y gystadleuaeth!




**Tîm Rygbi Dan 15 – Cwpan Eryri**
Llongyfarchiadau i'r Tîm Rygbi Dan 15 am eu perfformiad arbennig yn Plat Eryri! Buddugoliaeth wych yn y rownd wyth olaf yn erbyn Ysgol GYM, gyda sgôr o 54-7. Colled gystadleuol yn y rownd cyn-derfynol yn erbyn Ysgol Y Berwyn, Y Bala, gyda sgôr agos o 29-21.

**Llwyddiant Traws Gwlad – Meirion Dwyfor**
Llongyfarchiadau i'n bechgyn a'n merched am eu perfformiadau rhagorol yn y gystadleuaeth Traws Gwlad Meirion Dwyfor! Scarlett Harvey (Blwyddyn 7), Dyfan Price-Clishem (Blwyddyn 9), Edward Washington, Maizie Birks, Lilianna Teixeira Stickells, Sasha Poliakovic (Blwyddyn 10), Alex Whalley (Blwyddyn 11)
Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonynt.



